CANLLAWIAU

# Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig a hysbysiadau stop

Pan dderbyniwch Orchymyn Cadwraeth Natur Arbennig (Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig ) a sut i'w herio, beth mae hysbysiad stop yn ei olygu, a chael caniatâd ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Mawrth 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Sut mae Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn cael eu llunio**

**Gwrthwynebu Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig**

**Cadarnhau penderfyniad y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig**

**Hysbysiadau stop ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig**

**Cael caniatâd i gynnal gweithgareddau mewn hysbysiad stop**

**Derbyn penderfyniad caniatâd**

**Lleoliadau Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig**

**Cysylltu**

Oddi wrth:

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**, **Llywodraeth Cymru**, **Natural England**, a **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Yn berthnasol i:

Cymru a Lloegr

Defnyddir Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig (Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig ) i ddiogelu safleoedd Ewropeaidd rhag difrod neu ddirywiad.

Mae Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig yn disgrifio'r gweithgareddau sy'n debygol o ddinistrio neu ddifrodi cynefinoedd neu rywogaethau gwarchodedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae angen caniatâd arnoch gan Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynnal gweithgaredd cyfyngedig ar safle ble mae Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig mewn grym. Mae enghreifftiau o weithgareddau cyfyngedig yn cynnwys gyrru oddi ar y ffordd, coelcerthi a thyrchu am abwyd.

Mae Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn berthnasol i safleoedd Ewropeaidd. Y rhain yw:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

Dysgwch ble mae Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig mewn grym (dolen naid isod).

Mae Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn cyfyngu ar y gweithgareddau y gallwch eu cyflawni ar, ac yn agos i, safle. Gallant fod yn berthnasol i dir a dŵr – gan gynnwys dyfroedd mewndirol a’r amgylchedd morol.

Maent yn berthnasol i berchnogion tir, deiliaid a defnyddwyr tir, er enghraifft gweithgareddau hamdden.

Math o fesur cadwraeth yw Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig. Dysgwch am fesurau cadwraeth yn ein canllaw ar gyfer y **ddyletswydd i ddiogelu, gwarchod ac adfer safleoedd Ewropeaidd**.

## Sut mae Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn cael eu llunio

Caiff Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig eu llunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru, ar sail argymhelliad Natural England neu CNC. Yn y canllaw hwn, cyfeirir at yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru fel y ‘gweinidog’.

Gall Natural England neu CNC ofyn am Orchymyn Cadwraeth Natur Arbennig:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- os yw eu monitro yn dangos bod safle'n cael ei ddifrodi
- os yw eu monitro yn dangos bod safle mewn perygl
- os ydynt yn cytuno â chais i wneud hynny gan eraill

Ni fyddant yn gwneud cais am Orchymyn Cadwraeth Natur Arbennig oni bai:

- nad oes modd diogelu'r safle drwy reoliadau eraill – er enghraifft deddfau cynllunio neu is-ddeddfau
- nad yw mesurau eraill wedi gweithio neu nad ydynt yn bosibl – er enghraifft cytundebau gwirfoddol

Y gweinidog sy'n penderfynu a ddylid llunio Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig. Os ydynt yn cytuno i Orchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, bydd Defra neu Lywodraeth Cymru yn

- ei gyhoeddi yn y London Gazette
- ei gyhoeddi mewn papur newydd sy'n lleol i'r tir
- ei arddangos ar y safle neu'n agos ato, pan fo'n briodol

Bydd Natural England neu CNC yn anfon y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig atoch os ydych yn berchen ar y tir neu'n ddeiliad at ddibenion cyflawni unrhyw weithgareddau.

Bydd y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig yn esbonio'r gweithgareddau a allai achosi difrod, ac y cewch eich gorfodi i roi'r gorau iddynt os byddwch yn eu cyflawni.

## Gwrthwynebu Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig

Gall unrhyw un wrthwynebu Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig. Bydd y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig yn esbonio beth sydd angen i chi ei wneud a ble i anfon sylwadau neu eich gwrthwynebiad.

Bydd gennych o leiaf 28 diwrnod calendr i gyflwyno sylwadau neu eich

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwrthwynebiad.

Os ydych yn gwrthwynebu Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, bydd y gweinidog yn penderfynu a yw eich gwrthwynebiad:

- yn annilys – byddant yn rhoi rhesymau i chi
- yn ddilys a byddant yn dileu neu'n newid y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig
- yn ddilys ond y bydd angen ymchwiliad iddynt allu gwneud penderfyniad

Nid oes angen i chi dalu i gyflwyno gwrthwynebiad. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hun, er enghraifft, efallai y byddwch am gael cyngor arbenigol os bydd ymchwiliad.

**Os oes ymchwiliad**

Os bydd y gweinidog yn penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, cewch wybod:

- beth i'w ddisgwyl
- pwy fydd yn cymryd rhan
- yr amseriadau – gall ymchwiliad cymhleth gymryd sawl mis

Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cynnal yr ymchwiliadau. Dysgwch **sut i gymryd rhan mewn ymchwiliad**.

Ar ôl yr ymchwiliad, bydd yr arolygydd yn adrodd i'r gweinidog. Bydd y gweinidog yn penderfynu a ddylid:

- cadw (cadarnhau) y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig
- newid (diwygio) y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, er enghraifft caniatáu i weithgaredd penodol ddigwydd
- diddymu (dirymu) y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad yn derbyn hysbysiad o'r penderfyniad a chopi o adroddiad yr arolygydd.

Bydd unrhyw hysbysiadau stop Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig sydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eisoes wedi'u cyflwyno yn cael eu diwygio.

# Cadarnhau penderfyniad y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig

Rhaid i'r gweinidog gyhoeddi penderfyniad i gadarnhau a fydd y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig yn cael ei gadw, ei newid neu ei ganslo. Rhaid iddynt wneud hyn o fewn 9 mis i lunio'r Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig gyntaf.

Ar ôl i'r gweinidog wneud penderfyniad Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig terfynol, gallwch ei herio os credwch fod y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig wedi'i wneud heb ddilyn y broses gyfreithiol briodol. Rhaid i chi gyflwyno eich gwrthwynebiad i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i benderfyniad y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig.

# Hysbysiadau stop ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig

Os ydych yn cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, y gweithgareddau cyfyngedig a restrir mewn Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, gall Natural England neu CNC, ar ran y gweinidog, roi 'hysbysiad stop' i chi'.

Bydd yr hysbysiad stop yn dweud wrthych na ddylech gyflawni neu barhau i gyflawni gweithgaredd penodol heb ganiatâd. Mae'n esbonio beth fydd yn digwydd os byddwch yn parhau.

Fel arfer, dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob dull arall i geisio diogelu safle y caiff hysbysiadau stop eu defnyddio. Er enghraifft, efallai y cewch hysbysiad stop os nad ydych yn cytuno i atal gweithgaredd neu os nad ydych yn dilyn cod ymddygiad y cytunwyd arno ar gyfer gweithgaredd.

Os cyhoeddir hysbysiad stop, caiff:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- ei roi i berchennog y tir neu ddefnyddwyr sy'n cyflawni'r gweithgaredd ar y tir, os yw hynny'n hysbys
- ei gyhoeddi yn The London Gazette
- ei gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd sy'n lleol i'r tir
- ei arddangos ar y safle neu'n agos ato

Bydd yr hysbysiad stop yn nodi:

- enw'r safle
- y tir y mae'r hysbysiad stop yn effeithio arno
- manylion y gweithgareddau na chaniateir
- dyddiad dechrau
- dyddiad gorffen, os yw'n berthnasol

Rydych chi'n torri'r gyfraith os nad ydych chi'n cydymffurfio â hysbysiad stop. Gallech gael dirwy ddiderfyn a chael eich gorfodi gan Lys i drwsio'r difrod rydych wedi'i achosi.

Daw hysbysiad stop i ben:

- ar y dyddiad gorffen a nodwyd – os oes un
- os caiff y Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig ei ddirymu neu ei ddiwygio gan y gweinidog

Os oes gennych dir amaethyddol a bod yr hysbysiad stop wedi lleihau ei werth, gallwch ofyn am iawndal. Bydd angen i chi ddangos i Natural England neu CNC faint mae'r gwerth wedi lleihau. Bydd yr hysbysiad stop yn esbonio sut i wneud cais am iawndal.

## Cael caniatâd i gynnal gweithgareddau mewn hysbysiad stop

Os ydych am gyflawni gweithgaredd a restrir mewn hysbysiad stop Gorchymyn Cadwraeth Natur Arbennig, rhaid i chi wneud cais am ganiatâd gan Natural England neu CNC.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallwch gyflawni gweithgaredd a nodir mewn hysbysiad stop heb ganiatâd:

- os oes gennych ganiatâd cynllunio ar gyfer y gweithgaredd eisoes
- os yw'n argyfwng – mae risg sydyn, annisgwyl ac agos i iechyd, bywyd, eiddo neu'r amgylchedd

I wneud cais am ganiatâd, mae'n rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i Natural England neu CNC o'r gweithgaredd rydych am ei gyflawni. Bydd yr hysbysiad stop yn dweud wrthych sut i wneud cais am ganiatâd.

Bydd Natural England neu CNC yn cynnal asesiad rheoliadau cynefinoedd (ARhC) o'ch cynnig. Dim ond os na fydd eich gweithgareddau arfaethedig yn niweidio'r safle y cewch chi ganiatâd. Os oes amodau ynghlwm wrth y caniatâd, byddant yn dweud wrthych pam eu bod wedi gwneud hyn. Dysgwch am y **wybodaeth y gallai fod angen i chi ei darparu ar gyfer ARhC**.

Gallwch gyflawni'r gweithgaredd:

- os rhoddir caniatâd ysgrifenedig i chi
- os yw'n cyd-fynd â thelerau cytundeb rheoli y cytunwyd arno gyda Natural England neu CNC ar ôl cyflwyno'r hysbysiad stop

## Os gwrthodir caniatâd i chi

Os gwrthodir caniatâd i chi neu os na fyddwch yn derbyn penderfyniad, gallwch ofyn yn ysgrifenedig i Natural England neu CNC gyflwyno'r mater i'r gweinidog. Bydd y penderfyniad i wrthod caniatâd yn dweud wrthych sut i apelio. Mae angen i chi wneud hyn naill ai:

- fewn deufis o gael gwybod bod caniatâd wedi'i wrthod
- neu o fewn tri mis o wneud cais am ganiatâd os nad ydych wedi derbyn penderfyniad am eich cais

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dangos bod ‘budd cyhoeddus tra phwysig’

Bydd angen i chi ddangos bod ‘budd cyhoeddus tra phwysig’ i gyflawni’r gweithgaredd. Mae rhesymau budd cyhoeddus tra phwysig yn cynnwys rhesymau economaidd-gymdeithasol, a lle nad oes ffordd arall o gyflawni’r gwaith arfaethedig. Dysgwch am **fudd cyhoeddus tra phwysig a sut i’w ddangos**.

Dim ond os yw pob un o’r 3 amod hyn yn cael eu bodloni y bydd y gweinidog yn cytuno i roi caniatâd:

1. Nid oes unrhyw ffordd resymol arall neu lai niweidiol o gyflawni’r un canlyniad. Er enghraifft, cynnal y gweithgaredd mewn ffordd wahanol er mwyn lleihau’r effaith ar adar bridio.
2. Bernir bod y budd cyhoeddus o gyflawni’r gweithgaredd yn bwysicach na’r niwed y byddai’r gweithgaredd yn ei achosi i’r safle. Er enghraifft, mae’r manteision cymdeithasol neu economaidd yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau’r difrod.
3. Gallwch wneud iawn am unrhyw ddifrod a achosir i’r safle.

Os yw’r gweithgaredd yn debygol o effeithio ar ‘gynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth’ mewn ACA, rhaid i’r budd cyhoeddus tra phwysig ymwneud ag iechyd pobl, diogelwch y cyhoedd neu resymau eraill a gymeradwyir gan weinidogion. **Gwiriwch amcanion cadwraeth ACA** i weld a yw’n cynnwys cynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth.

# Derbyn penderfyniad caniatâd

Bydd y gweinidog yn anfon llythyr penderfyniad atoch. Bydd yn dweud a allwch gyflawni’r gweithgaredd ai peidio. Nid oes terfyn amser i’r gweinidog wneud penderfyniad.

Bydd y gweinidog wedyn yn dweud wrth Natural England neu CNC a ddylid rhoi caniatâd i chi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhaid i chi dderbyn y caniatâd cyn i chi gyflawni eich gweithgaredd.

## Lleoliadau Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig

| Enw'r safle | Sir | Arwynebedd (hectarau) | Dyddiad llunio | Parti cyfrifol | Gweithgarwch cyfyngedig |
|---|---|---|---|---|---|
| Holton a Sandford Heaths | Dorset | 33.2 | 9 Rhagfyr 1982 | Perchennog a deiliad tir | Ffensio a rotofetio |
| Slop Bog ac Uddens Heath | Dorset | 17.7 | 22 Hydref 1984 | Perchennog a deiliad tir | Defnyddio teirw dur |
| Upton Heath | Dorset | 50 | 22 Ionawr 1985 | Perchennog a deiliad tir | Defnyddio teirw dur |
| Tealham a Tadham Moors | Gwlad yr Haf | 16.7 | 8 Gorffennaf 1985 | Perchennog tir | Echdynnu mawn masnachol |
| Westhay Moor | Gwlad yr Haf | 7.57 | 17 Mehefin 1987 | Perchennog tir | Echdynnu mawn masnachol |
| Upton Heath | Dorset | 0.5 | 1 Rhagfyr 1989 | Trydydd parti | Defnyddio teirw dur |
| Ynys Metgawdd | Northumberland | 344.76 | 15 Hydref 1993 | Trydydd parti | Tyrchu am abwyd |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Enw'r safle | Sir | Arwynebedd (hectarau) | Dyddiad llunio | Parti cyfrifol | Gweithgarwch cyfyngedig |
|---|---|---|---|---|---|
| SoDdGA Leek Moors – Readyleech Green | Swydd Stafford | 17 | 5 Chwefror 1998 | Perchennog tir | Gosod draeniau |
| Dungeness | Caint | 1211 | 13 Ionawr 1999 | Trydydd parti | Defnyddio cerbydau a yrrir yn fecanyddol |
| Castle Hill | Sussex | 114.67 | 26 Awst 1999 | Trydydd parti | Gwyliau awyr agored |
| Folkstone i Etchinghill Escarpment | Caint | 6.903 | 19 Tachwedd 1999 | Trydydd parti | Cerfio 'ceffyl gwyn' |
| Mwsoglau Fenns, Whixall, Bettisfield, Wem a Cadney | Swydd Amwythig a Chlwyd | 2.74 | 31 Mai 2000 | Perchennog tir | Aredig |
| Wouldham i Detling | Caint | 62.6 | 18 Awst 2000 | Trydydd parti | Defnyddio cerbyd |
| Harbwr Portsmouth | Hampshire | 44.24 | 18 Ionawr 2001 | Trydydd parti | Tyrchu am abwyd masnachol ar raddfa eang |

I gael rhagor o fanylion am Orchymyn Cadwraeth Natur Arbennig **cysylltwch â**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Natural England.

# Cysylltu

Cysylltwch â Natural England am help yn Lloegr.

Cysylltwch â CNC am help yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig a hysbysiadau stop** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gorchmynion-cadwraeth-natur-arbennig-hysbysiadau-stop-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.